



**Cyngor Gofal Cymru**  
Care Council for Wales

*Hyder mewn Gofal - Confidence in Care*

# Canllaw ar Gydnabod Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd ar Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru ym meysydd Gofal Cymdeithasol, Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**



**Cyngor Gofal Cymru**  
Care Council for Wales

*Hyder mewn Gofal - Confidence in Care*

# Cynnwys

TUDALEN

Cyflwyniad .....	4
Beth yw dysgu achrededig ar FfCChC? .....	5
Beth yw manteision dysgu achrededig ar golofn dysgu gydol oes gyda sicrwydd ansawdd? .....	6
Beth yw'r gwahaniaeth rhwng unedau a ddefnyddir ar gyfer diplomâu'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau ac unedau a ddefnyddir ar gyfer dysgu gydol oes gyda sicrwydd ansawdd (DGOSA)? .....	7
Sut y gallaf achredu dysgu? .....	7
Sut y byddaf yn gwybod a yw'r dysgu hwn neu ddysgu tebyg eisoes wedi'i achredu? .....	8
Pa mor hir y bydd yn ei gymryd i'r Cyngor Gofal ddod i benderfyniad ynghylch fy achos busnes? .....	8
Pa mor hir y bydd yn ei gymryd o'r dechrau i'r diwedd cyn y caiff fy nysgu ei achredu a'i gynnwys ar golofn DGOSA? .....	8
Sut y byddaf yn gwybod pa sefydliad dyfarnu i gysylltu ag ef? .....	8
Beth fydd y sefydliad dyfarnu yn ei ddisgwyl gennyf? .....	8
Am faint y bydd yr achrediad yn para? .....	8
Os caiff fy nysgu ei achredu, a allaf ei gyflwyno i eraill? .....	8
Atodiad 1 .....	9
Atodiad 2 .....	17
Atodiad 3 - Ffurflen gais achos busnes .....	23

Cyhoeddwyd gan:

Cyngor Gofal Cymru  
South Gate House  
Wood Street  
Caerdydd CF10 1EW  
Ffôn: 029 2022 6257  
Ffacs: 029 2038 4764  
E-bost: gwybodaeth@cgymru.org.uk

[www.cgymru.org.uk](http://www.cgymru.org.uk)

ISBN: 978-1-906528-46-1

© 2012 Cyngor Gofal Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Cyngor Gofal Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhyrchu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

# Cyflwyniad

Cyflwynwyd Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) yn 2003. Mae'n "rhagweld y caiff pob math o ddysgu ei gynnwys o fewn fframwaith cydnabyddiaeth cyffredin" ac yn ategu pum nod allweddol:

- "Galluogi pawb i ddatblygu a chynnal sgiliau hanfodol;
- Annog pobl i ddod yn ddysgwyr gydol oes;
- Ategu'r broses o ddatblygu sgiliau mewn busnesau a sefydliadau addysgol;
- Annog gweithwyr i feithrin sgiliau newydd; a

- *Helpu pobl i ddatblygu sgiliau newydd yn eu cymunedau.*"<sup>1</sup>

Mae'n dwyn ynghyd yr holl ddysgu cydnabyddedig mewn un strwythur unigol sy'n cynnwys addysg uwch, dysgu gydol oes ac addysg a hyfforddiant cyffredinol a galwedigaethol.

Mae'r diagram canlynol yn dangos tair "colofn" FfCChC lle ceir mathau gwahanol o ddysgu cydnabyddedig neu achrededig.



## Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru



### Pob dysgwr

#### Pob rhaglen ddysgu

gan gynnwys cyrsiau a addysgir, dysgu o bell, hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith, dysgu a hybir gan dechnoleg a gweithgareddau addysg/hyfforddiant eraill

#### Pob darparwr

gan gynnwys ysgolion, colegau, hyfforddwyr sy'n darparu hyfforddiant yn y gwaith, prifysgolion, y gymuned, diwydiant, gweithgareddau gwirfoddol a gweithgareddau eraill

### Mathau o gymwysterau a chyfleoedd dysgu

#### Addysg Uwch

Gradd  
Gradd Meistr  
Astudiaethau ôl-raddedig  
Doethuriaethau

#### Dysgu Gydol Oes

Dysgu oedolion a dysgu yn y gymuned  
Hyfforddiant mewn cwmni  
Y sector gwirfoddol  
Dysgu ehangach 14+

#### Addysg a hyfforddiant cyffredinol a galwedigaethol

TGAU  
Safon Uwch  
S/NVQ  
Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

### Caiff dysgu a chymwysterau eu trefnu'n fframweithiau

Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch  
**FHEQ**

Dysgu Gydol Oes gyda Gwarant  
Ansawdd **QALL**

Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol  
**NQF**  
Fframwaith Cymwysterau a Chredydau  
**QCF**  
Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r  
Alban **SCQF**

### Caiff ansawdd cyfleoedd dysgu a safonau eu sicrhau gan

Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd  
Addysg Uwch **QAA**

Fframwaith Credydau a  
Chymwysterau Cymru

APADGOS, Ofqual, Cyngor Cwricwlwm,  
Arholiadau ac Asesiadau a phartneriaeth  
Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r  
Alban

[www.cqfw.net](http://www.cqfw.net)

1. Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru: Cyflawni'r Addewid. Cynllun Cyflawni a Llawlyfr 2009-2014.  
<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090619handbook20092014cy.pdf>

Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar y broses o achredu dysgu gydol oes gyda sicrwydd ansawdd (DGOSA) ym meysydd gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru, sef colofn ganolog y diagram.

Mae DGOSA yn cynnwys "*darpariaeth wedi'i theilwra a gydnabyddir ar gyfer dysgu i oedolion a dysgu cymunedol, hyfforddiant mewnol gan gwmnïau, a mathau eraill o ddysgu a gyflwynwyd i'w cydnabod fel dysgu gydol oes gyda sicrwydd ansawdd.*"<sup>2</sup>

Mae Cyngor Gofal Cymru wedi bod yn arwain prosiect cyffrous sydd wedi bod yn ystyried y broses o achredu dysgu gydol oes gyda sicrwydd ansawdd ym meysydd gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant, a fydd yn rhan o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Ein gweledigaeth yw y bydd dysgu achrededig ar gael i bob gweithiwr yng Nghymru naill ai ym meysydd gofal cymdeithasol neu flynyddoedd cynnar a gofal plant, ac y caiff ei ddefnyddio i wella safonau'r gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwaith o broffesiynoli'r gweithlu.

Mae'r prosiect wedi cynnwys nifer o gynlluniau peilot mewn ystod eang o wasanaethau ac mae'r Cyngor Gofal bellach yn barod i gynnig y cyfle i eraill fod yn rhan o'r broses o achredu dysgu gydol oes gyda sicrwydd ansawdd. Nod y canllaw hwn yw rhoi mwy o wybodaeth am achredu dysgu a'r broses y mae angen ei dilyn i gyflawni hyn.

## Beth yw dysgu achrededig ar FfCChC?

Mae FfCChC yn defnyddio tri chysyniad:

- *"Mynegi cyflawniadau fel deilliannau dysgu;*
- *Y galwadau a wneir gan y dysgu hwnnw ar y dysgwyr y cyfeirir atynt fel lefel;*

- *Swm y cyflawniadau dysgu, y cyfeirir ato fel credyd."*<sup>2</sup>

Datganiadau o'r hyn y mae dysgwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud ar ôl cwblhau proses ddysgu yw **deilliannau dysgu** e.e.

*"1. Deall sut i annog teuluoedd i newid eu hymddygiad."*<sup>3</sup>

Cefnogir deilliannau dysgu gan feini prawf asesu. Defnyddir y meini prawf hyn i benderfynu a yw'r deiliant wedi'i gyflawni e.e.

*"1.1 Disgrifiwch sut i annog teuluoedd i newid eu hymddygiad gan gynnwys:*


- *Ymagwedd teulu cyfan*
- *Y broses newid*
- *Ystyried deuoliaeth teimlad."*<sup>3</sup>

Mae **lefel** yn ddangosydd o'r hyn sy'n ofynnol fel rhan o'r dysgu ynghyd â'i gymhlethdod a'i fanylder ac yn ddangosydd hefyd o ymreolaeth y dysgwyr – nodir hyn o dan "ddisgrifyddion lefel" a ddefnyddir ar gyfer pob colofn o FfCChC (Atodiad 1).

Mae FfCChC yn cynnwys naw lefel – lefel mynediad, sydd wedi'i rhannu'n dair is-lefel, a lefelau 1-8. Mae'r diagram isod yn dangos y lefelau gwahanol ynghyd ag enghreifftiau o'r cymwysterau a'r dysgu sy'n rhan o FfCChC. Gellir cynnwys unedau ar golofn DGOSA ar unrhyw un o'r lefelau hyn.

Mae **credyd** yn fesur o'r amser dysgu a neilltuir i gyfres o ddeilliannau dysgu. Mae'r amser dysgu yn seiliedig ar faint o amser y gellid disgwyl i ddysgwyr nodweddiadol ei gymryd i gwblhau'r holl ddysgu sy'n berthnasol i gyflawni'r deilliannau dysgu. Gallai

2. Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru: Cyflawni'r Addewid. Cynllun Cyflawni a Llawlyfr 2009-2014. <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090619handbook20092014cy.pdf>  
3. Uned achrededig gan y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd. Building Stronger Families by Promoting Behavioural Change.



Cyflwynwyd y Fframwaith Credydau a Chymwysterau ar gyfer Cymru yn 2003 fel fframwaith dysgu holl gynhwysol. Mae'r lefelau yn nodi'r lefelau dysgu o'r camau dechreuol cyntaf (Mynediad) i'r lefel uchaf (Lefel 8). Mae'r diagram yn dangos y lefelau ac yn cynnwys enghreifftiau o'r cymwysterau a'r ddarpariaeth ddysgu sy'n rhan ohono.

Cysylltwch â Swyddfa CQFW am fanylion pellach:  
 Ffôn: 01443 663 633 Ffacs: 01442 663 653  
 E-bost: info@cqfw.net Gwefan: www.cqfw.net

Cyngor Cyllido Addysg  
 Uwch Cymru  
 Higher Education Funding  
 Council for Wales

hefcw



THE CREDIT & QUALIFICATIONS  
 FRAMEWORK FOR WALES  
 FFRAMWAITH CREDYDAU  
 A CHYMWYSTRAU CYMRU



hyn gynnwys amrywiaeth o ddulliau gwahanol e.e. dysgu a addysgir, darllen dan arweiniad, ymchwil, myfyrio, trafodaethau un i un, gweithgareddau sy'n seiliedig ar waith, asesu ac ati.

Neilltuir 10 awr o amser dysgu i un credyd.

Caiff deilliannau dysgu a meini prawf asesu eu cynnwys mewn "uned". Rhoddir teitl clir i bob uned sy'n dangos ei chynnwys a phennir credyd a lefel ar ei chyfer. Gellir gweld enghreifftiau o dair uned a achredwyd fel rhan o'r prosiect Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd sydd â gwerth credyd a lefelau gwahanol yn Atodiad 2.

## Beth yw manteision dysgu achrededig ar golfn dysgu gydol oes gyda sicrwydd ansawdd?

Gan mai dim ond yng Nghymru y mae dysgu gydol

oes gyda sicrwydd ansawdd ar gael, mae'n cynnig manteision penodol i gyflogwyr a dysgwyr. Derbynnir dysgu seiliedig ar gredydau yn eang ledled Cymru a gellir ei ddefnyddio i:

- Ddarparu'r cerrig camu tuag at ennill cymwysterau ffurfiol;
- Hwyluso'r broses o drosglwyddo i ddysgu ffurfiol e.e. cymwysterau galwedigaethol neu academiaidd;
- Hwyluso'r broses o achredu dysgu sydd â safbwynt Cymreig penodol neu sy'n ymateb i ffactorau sy'n sbarduno polisi yng Nghymru;
- Achredu hyfforddiant penodol neu arbenigol
- Darparu tystiolaeth o ddysgu gyda sicrwydd ansawdd i gyflogwyr;
- Gwerthfawrogi a chynabod y dysgu a gyflawnir gan y gweithlu;
- Rhoi statws i rolau o fewn y sector a dysgu

4. Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru: Cyflawni'r Addewid. Cynllun Cyflawni a Llawlyfr 2009-2014. <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090619handbook20092014cy.pdf>

- arbenigol y gellir bod wedi ymgymryd ag ef - mewn gwirionedd, elfen o broffesiynoli;
- Cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus;
- Helpu i recriwtio a chadw staff;
- Darparu tystiolaeth i reoleiddwyr a chomisiynwyr gwasanaethau o ddysgu gyda sicrwydd ansawdd a gyflawnwyd ar lefel benodol gan y gweithlu; a
- Cyfrannu at wella safon gwasanaethau a chanlyniadau gwasanaethau.

## Beth yw'r gwahaniaeth rhwng unedau a ddefnyddir ar gyfer diplomâu'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau ac unedau a ddefnyddir ar gyfer dysgu gydol oes gyda sicrwydd ansawdd (DGOSA)?

Yr unedau a ddefnyddir o fewn diplomâu'r FfCCh ym meysydd gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant yw'r conglfeini a gyfunir yn gymwysterau drwy reolau cyfuno. Gan fod y cymwysterau'n gydnabyddedig ledled Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, mae'r unedau sy'n rhan ohonynt yn berthnasol i'r DU gyfan yn hytrach nag i Gymru'n benodol. Mae'n annhebygol hefyd y byddai arbenigeddau penodol yn cael eu hadlewyrchu o fewn cymwysterau'r FfCCh gan na fyddai unrhyw werth ar y farchnad i sefydliadau dyfarnu gynnig unedau na fyddent ond yn denu nifer fach o fyfyrwyr ledled y DU.

Mae colofn DGOSA yn gyfle i ni achredu hyfforddiant a dysgu arbenigol o'r fath i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus, y tu hwnt i'r prif gymwysterau. Fe'i defnyddir hefyd i ddarparu ymateb gan y sector i gydnabyddiaeth o bolisiau a mentrau Llywodraeth Cymru. Gellir hefyd ddefnyddio DGOSA i achredu dysgu eang y gellir wedyn ei ddefnyddio fel "pasbort" ym mhob rhan o'r sector e.e. pasbort codi a chario Cymru. Yn yr

achos hwn, lle ceir dyblygu ar draws y FfCCh a DGOSA, gall dysgwyr gael eu heithrio o unedau penodol o'r FfCCh o fewn y cymwysterau diploma.

## Sut y gallaf achredu dysgu?

Mae'r siart llif isod yn nodi'r broses ar gyfer achredu dysgu:



## Sut y byddaf yn gwybod a yw'r dysgu hwn neu ddysgu tebyg eisoes wedi'i achredu?

Bydd y Cyngor Gofal yn cynnal archwiliadau cychwynnol i weld a oes unrhyw ddysgu tebyg eisoes wedi'i achredu.

## Pa mor hir y bydd yn ei gymryd i'r Cyngor Gofal ddod i benderfyniad ynghylch fy achos busnes?

Caiff achosion busnes eu cyfeirio i'r Is-Bwyllgor Cymwysterau a Safonau. Mae'r is-bwyllgor yn cyfarfod bob deufis ar ddydd Mercher olaf y mis a rhaid cyflwyno achosion busnes ddeg diwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Gellir cael dyddiadau'r cyfarfodydd gan Gethin White drwy ffonio

**02920 780685** neu e-bostio

**gethin.white@cgymru.org.uk**. Bydd y Cyngor Gofal yn ymateb o fewn pum diwrnod gwaith i ddyddiad y cyfarfod.

## Pa mor hir y bydd yn ei gymryd o'r dechrau i'r diwedd cyn y caiff fy nysgu ei achredu a'i gynnwys ar golofn DGOSA?

Nid oes ateb syml i'r cwestiwn hwn - bydd yn dibynnu i raddau helaeth ar nifer yr unedau a ddatblygwyd gennych a pha mor gymhleth ydynt. Mae hefyd yn debygol o amrywio yn ôl y Sefydliad Dyfarnu sy'n achredu'r unedau.

## Sut y byddaf yn gwybod pa sefydliad dyfarnu i gysylltu ag ef?

Gellir gweld rhestr o'r sefydliadau dyfarnu a gydnabyddir gan FfCChC drwy e-bostio

**cqfwenquiries@wales.gsi.gov.uk**. Y sefydliadau a oedd yn rhan o'r prosiect pilot gyda'r Cyngor Gofal oedd:

- Agored Cymru;
- City & Guilds; a

- Y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM).

## Beth fydd y sefydliad dyfarnu yn ei ddisgwyl gennyf?

Mae pob sefydliad dyfarnu yn gweithredu ychydig yn wahanol ond yn gyffredinol bydd pob un yn gofyn i chi gofrestru ag ef fel canolfan gydnabyddedig. Bydd hefyd yn darparu aseswyr a fydd yn gymwys i wneud dyfarniadau asesu o ran yr unedau a gyflwynir. Mae sefydliadau dyfarnu yn codi taliadau amrywiol am eu gwasanaethau ac mae'n werth cadarnhau'r rhain cyn ymrwymo i weithio gydag unrhyw sefydliad Dyfarnu penodol. Bydd rhai yn codi tâl am gefnogi'r gwaith o ddatblygu unedau, rhai yn codi tâl arnoch i ddod yn ganolfan gydnabyddedig, rhai yn codi tâl am gofrestru ac achredu dysgwyr ac eraill yn codi tâl am ardystio yn unig.

Efallai y byddwch am weithio mewn partneriaeth â chanolfan gydnabyddedig sy'n bodoli eisoes megis coleg addysg bellach neu ganolfan sy'n seiliedig ar gyflogwyr er mwyn lleihau costau.

## Am faint y bydd yr achrediad yn para?

Pan gaiff unedau eu datblygu, pennir dyddiad adolygu ar eu cyfer fel arfer rhwng dwy a phum mlynedd o'r adeg y cânt eu datblygu. Cytunir ar hyn rhyngoch chi, y sefydliad dyfarnu a'r Cyngor Gofal.

## Os caiff fy nysgu ei achredu, a allaf ei gyflwyno i eraill?

Gallwch, ar yr amod nad yw hyn wedi'i gyfyngu fel un o amodau cymeradwyo'r unedau gan y Cyngor Gofal.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am ddefnyddio DGOSA yn y sector gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar



a gofal plant, ewch i'n gwefan

<http://www.ccwales.org.uk/qualifications-and-careers/qualifications/credit-qualification-framework-wales?diablo.lang=cym> a darllenwch ein cwestiynau cyffredin.

Gellir lawrlwytho ffurflen achos busnes o

<http://www.ccwales.org.uk/qualifications-and-careers/qualifications/credit-qualification-framework-wales?diablo.lang=cym> neu ofyn am ffurflen drwy gysylltu â Dyfan Jones drwy ffonio **02920 780654** neu e-bostio **dyfan.jones@cgymru.org.uk**.

## Atodiad 1

### Disgrifyddion lefel Ofqual – Ionawr 2009



Disgrifyddion Lefel				
Lefel	Crynodeb	Gwybodaeth a dealltwriaeth	Cymhwysio a gweithredu	Annibyniaeth ac atelbolrwydd
<b>Lefel Mynediad</b>	Mae Mynediad 1 yn cydnabod cynnydd ar hyd continwmm sy'n amrywio o'r cyflawniadau mwyaf sylfaenol i ddechrau defnyddio sgiliau, gwybodaeth neu ddealltwriaeth sy'n berthnasol i'r amgylchedd uniongyrchol.			
	Mae cyflawni Mynediad 2 yn adlewyrchu'r gallu i ddefnyddio sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth i gyflawni tasgau a gweithgareddau syml a chyfarwydd gyda chyfarwyddyd.	Defnyddio gwybodaeth neu ddealltwriaeth i gyflawni gweithgareddau syml a chyfarwydd.  Gwybod pa gamau sydd eu hangen i gwblhau gweithgareddau syml.	Cyflawni tasgau a gweithgareddau syml a chyfarwydd.  Dilyn cyfarwyddiadau neu ddefnyddio camau wedi'u hymarfer i gwblhau tasgau a gweithgareddau.	Gydag arweiniad priodol, cymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros ganlyniadau gweithgareddau syml.  Cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau syml a chyfarwydd.
	Mae cyflawni Mynediad 3 yn adlewyrchu'r gallu i ddefnyddio sgiliau, gwybodaeth strwythuredig am dasgau, a dealltwriaeth i gyflawni tasgau a gweithgareddau strwythuredig mewn cyd-destunau cyfarwydd, gydag arweiniad priodol lle y bo'i angen.	Defnyddio gwybodaeth neu ddealltwriaeth i gyflawni tasgau a gweithgareddau strwythuredig mewn cyd-destunau cyfarwydd.  Gwybod a deall y camau sydd eu hangen i gwblhau tasgau a gweithgareddau strwythuredig mewn cyd-destunau cyfarwydd.	Cyflawni tasgau a gweithgareddau strwythuredig mewn cyd-destunau cyfarwydd.  Bod yn ymwybodol o ganlyniadau camau gweithredu personol a chamau gweithredu gan eraill.	Gydag arweiniad priodol, cymryd cyfrifoldeb dros ganlyniadau gweithgareddau strwythuredig.  Cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau mewn cyd-destunau cyfarwydd.

## Disgrifyddion Lefel

Lefel	Crynodeb	Gwybodaeth a dealltwriaeth	Cymhwyso a gweithredu	Annibyniaeth ac atelbolrwydd
<b>Lefel 1</b>	<p>Mae cyflawni Lefel 1 yn adlewyrchu'r gallu i ddefnyddio gwybodaeth, sgiliau a gweithdrefnau perthnasol i gwblhau tasgau cyffredin. Mae'n cynnwys cyfrifoldeb dros gwblhau tasgau a gweithdrefnau yn amodol ar gyfarwyddyd neu arweiniad.</p>	<p>Defnyddio gwybodaeth am ffeithiau, gweithdrefnau a syniadau i gwblhau tasgau cyffredin, wedi'u diffinio'n dda.</p> <p>Bod yn ymwybodol o wybodaeth sy'n berthnasol i'r maes astudio neu'r maes gwaith.</p>	<p>Cwblhau tasgau cyffredin, wedi'u diffinio'n dda.</p> <p>Defnyddio sgiliau a gweithdrefnau perthnasol.</p> <p>Dewis a defnyddio gwybodaeth berthnasol.</p> <p>Nodi a fu'r camau gweithredu yn effeithiol ai peidio.</p>	<p>Cymryd cyfrifoldeb dros gwblhau tasgau a gweithdrefnau yn amodol ar gyfarwyddyd neu arweiniad fel y bo'u hangen.</p>
<b>Lefel 2</b>	<p>Mae cyflawni Lefel 2 yn adlewyrchu'r gallu i ddewis a defnyddio gwybodaeth, syniadau, sgiliau a gweithdrefnau perthnasol i gwblhau tasgau wedi'u diffinio'n dda ac ymdrin â phroblemau syml. Mae'n cynnwys cymryd cyfrifoldeb dros gwblhau tasgau a gweithdrefnau ac arfer annibyniaeth a barn yn amodol ar gyfarwyddyd neu arweiniad cyffredinol.</p>	<p>Defnyddio dealltwriaeth o ffeithiau, gweithdrefnau a syniadau i gwblhau tasgau wedi'u diffinio'n dda ac ymdrin â phroblemau syml.</p> <p>Dehongli gwybodaeth a syniadau perthnasol.</p> <p>Bod yn ymwybodol o'r mathau o wybodaeth sy'n berthnasol i'r maes astudio neu'r maes gwaith.</p>	<p>Cwblhau tasgau cyffredin ar y cyfan, wedi'u diffinio'n dda ac ymdrin â phroblemau syml.</p> <p>Dewis a defnyddio sgiliau a gweithdrefnau perthnasol.</p> <p>Nodi, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol i lywio camau gweithredu.</p> <p>Nodi pa mor effeithiol y bu camau gweithredu.</p>	<p>Cymryd cyfrifoldeb dros gwblhau tasgau a gweithdrefnau.</p> <p>Arfer annibyniaeth a barn yn amodol ar gyfarwyddyd neu arweiniad cyffredinol.</p>

## Disgrifyddion Lefel

Lefel	Crynodeb	Gwybodaeth a dealltwriaeth	Cymhwyso a gweithredu	Annibyniaeth ac atelbolrwydd
<b>Lefel 3</b>	<p>Mae cyflawni Lefel 3 yn adlewyrchu'r gallu i nodi a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol i gwblhau tasgau ac ymdrin â phroblemau sydd, er eu bod wedi'u diffinio'n dda, yn gymharol gymhleth. Mae'n cynnwys cymryd cyfrifoldeb dros gychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau yn ogystal ag arfer annibyniaeth a barn o fewn paramedrau cyfyngedig. Mae hefyd yn adlewyrchu ymwybyddiaeth o wahanol safbwyntiau neu ddulliau gweithredu o fewn maes astudio neu faes gwaith.</p>	<p>Defnyddio dealltwriaeth ffeithiol, weithdrefnol a damcaniaethol i gwblhau tasgau ac ymdrin â phroblemau sydd, er wedi'u diffinio'n dda, o bosibl yn gymhleth ac yn anarferol.</p> <p>Dehongli a gwerthuso gwybodaeth a syniadau perthnasol.</p> <p>Bod yn ymwybodol o natur y maes astudio neu'r maes gwaith.</p> <p>Bod yn ymwybodol o wahanol safbwyntiau neu ddulliau gweithredu o fewn y maes astudio neu'r maes gwaith.</p>	<p>Ymdrin â phroblemau sydd, er eu bod wedi'u diffinio'n dda, o bosibl yn gymhleth ac yn anarferol.</p> <p>Nodi, dewis a defnyddio sgiliau, dulliau a gweithdrefnau priodol.</p> <p>Defnyddio dulliau ymchwilio priodol i lywio camau gweithredu.</p> <p>Adolygu pa mor effeithiol y bu dulliau a chamau gweithredu.</p>	<p>Cymryd cyfrifoldeb dros gychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau, gan gynnwys, lle y bo'n berthnasol, gyfrifoldeb dros oruchwylio neu dywys eraill.</p> <p>Arfer annibyniaeth a barn o fewn paramedrau cyfyngedig.</p>

## Disgrifyddion Lefel

Lefel	Crynodeb	Gwybodaeth a dealltwriaeth	Cymhwyso a gweithredu	Annibyniaeth ac atelbolrwydd
<b>Lefel 4</b>	<p>Mae cyflawni Lefel 4 yn adlewyrchu'r gallu i nodi a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol i ymdrin â phroblemau sydd wedi'u diffinio'n dda ond sy'n gymhleth ac yn anarferol. Mae'n cynnwys cymryd cyfrifoldeb dros gamau gweithredu cyffredinol yn ogystal ag arfer annibyniaeth a barn o fewn paramedrau eang. Mae hefyd yn adlewyrchu dealltwriaeth o wahanol safbwyntiau neu ddulliau gweithredu o fewn maes astudio neu faes gwaith.</p>	<p>Defnyddio dealltwriaeth ymarferol, ddamcaniaethol neu dechnegol i ymdrin â phroblemau sydd wedi'u diffinio'n dda ond sy'n gymhleth ac yn anarferol.</p> <p>Dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth a syniadau perthnasol.</p> <p>Bod yn ymwybodol o natur a chwmpas bras y maes astudio neu'r maes gwaith.</p> <p>Meddu ar ymwybyddiaeth hyddysg o wahanol safbwyntiau neu ddulliau gweithredu o fewn y maes astudio neu'r maes gwaith.</p>	<p>Ymdrin â phroblemau sy'n gymhleth ac yn anarferol er eu bod, ar y cyfan, wedi'u diffinio'n gymharol dda.</p> <p>Nodi, addasu a defnyddio dulliau a sgiliau priodol.</p> <p>Cychwyn a defnyddio dulliau ymholi priodol i lywio camau gweithredu.</p> <p>Adolygu effeithiolrwydd a phriodolrwydd dulliau, camau gweithredu a deilliannau.</p>	<p>Cymryd cyfrifoldeb dros gamau gweithredu, gan gynnwys lle y bo'n berthnasol, gyfrifoldeb dros waith eraill.</p> <p>Arfer annibyniaeth a barn o fewn paramedrau eang ond wedi'u diffinio'n gyffredinol dda.</p>

## Disgrifyddion Lefel

Lefel	Crynodeb	Gwybodaeth a dealltwriaeth	Cymhwyso a gweithredu	Annibyniaeth ac atelbolrwydd
<b>Lefel 5</b>	<p>Mae cyflawni Lefel 5 yn adlewyrchu'r gallu i nodi a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol i ymdrin â phroblemau cymhleth wedi'u diffinio'n eang. Mae'n cynnwys cymryd cyfrifoldeb dros gynllunio a datblygu camau gweithredu yn ogystal ag arfer annibyniaeth a barn o fewn paramedrau eang. Mae hefyd yn adlewyrchu dealltwriaeth o wahanol safbwyntiau, dulliau gweithredu neu ffyrdd o feddwl a'r rhesymeg sy'n sail iddynt.</p>	<p>Defnyddio dealltwriaeth ymarferol, ddamcaniaethol neu dechnolegol i ddod o hyd i ffyrdd ymlaen mewn cyd-destunau cymhleth wedi'u diffinio'n eang.</p> <p>Dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth, cysyniadau a syniadau perthnasol.</p> <p>Bod yn ymwybodol o natur a chwmpas y maes astudio neu'r maes gwaith.</p> <p>Deall gwahanol safbwyntiau, dulliau gweithredu neu ffyrdd o feddwl a'r rhesymeg sy'n sail iddynt.</p>	<p>Ymdrin â phroblemau cymhleth wedi'u diffinio'n eang.</p> <p>Pennu, addasu a defnyddio dulliau a sgiliau priodol.</p> <p>Defnyddio gwaith ymchwil neu ddatblygu perthnasol i lywio camau gweithredu.</p> <p>Gwerthuso camau gweithredu, dulliau a deilliannau.</p>	<p>Cymryd cyfrifoldeb dros gynllunio a datblygu camau gweithredu, gan gynnwys, lle y bo'n berthnasol, gyfrifoldeb dros waith eraill.</p> <p>Arfer annibyniaeth a barn o fewn paramedrau eang.</p>

## Disgrifyddion Lefel

Lefel	Crynodeb	Gwybodaeth a dealltwriaeth	Cymhwyso a gweithredu	Annibyniaeth ac atelbolrwydd
<b>Lefel 6</b>	<p>Mae cyflawni Lefel 6 yn adlewyrchu'r gallu i fireinio a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol i ymdrin â phroblemau cymhleth â diffiniad cyfyngedig. Mae'n cynnwys cymryd cyfrifoldeb dros gynllunio a datblygu camau gweithredu a all fod yn sail i newidiadau neu ddatblygiadau sylweddol, yn ogystal ag arfer annibyniaeth a barn eang. Mae hefyd yn adlewyrchu dealltwriaeth o wahanol safbwyntiau, dulliau gweithredu neu ffyrdd o feddwl a'r damcaniaethau sy'n sail iddynt.</p>	<p>Mireinio a defnyddio dealltwriaeth ymarferol, gysyniadol neu dechnolegol i greu ffyrdd ymlaen o fewn cyd-destunau lle ceir sawl ffactor sy'n rhyngweithio.</p> <p>Cynnal dadansoddiad beirniadol, dehongli a gwerthuso gwybodaeth, cysyniadau a syniadau cymhleth.</p> <p>Deall cyd-destun y maes astudio neu'r maes gwaith.</p> <p>Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau cyfredol yn y maes astudio neu'r maes gwaith.</p> <p>Deall gwahanol safbwyntiau, dulliau gweithredu neu ffyrdd o feddwl a'r damcaniaethau sy'n sail iddynt.</p>	<p>Ymdrin â phroblemau â diffiniad cyfyngedig lle ceir sawl ffactor sy'n rhyngweithio.</p> <p>Pennu, mireinio, addasu a defnyddio dulliau a sgiliau priodol.</p> <p>Defnyddio a, lle y bo'n briodol, dylunio gwaith ymchwil a datblygu perthnasol i lywio camau gweithredu.</p> <p>Gwerthuso camau gweithredu, dulliau a deilliannau a'u goblygiadau.</p>	<p>Cymryd cyfrifoldeb dros gynllunio a datblygu camau gweithredu a all fod yn sail i newidiadau neu ddatblygiadau sylweddol.</p> <p>Cychwyn ac arwain tasgau a phrosesau, gan gymryd cyfrifoldeb, lle y bo'n berthnasol, dros waith a rolau eraill.</p> <p>Arfer annibyniaeth a barn eang.</p>

## Disgrifyddion Lefel

Lefel	Crynodeb	Gwybodaeth a dealltwriaeth	Cymhwyso a gweithredu	Annibyniaeth ac atelbolrwydd
<b>Lefel 7</b>	<p>Mae cyflawni Lefel 7 yn adlewyrchu'r gallu i ailffurfio a defnyddio gwybodaeth, methodolegau a dulliau gweithredu perthnasol i ymdrin â sefyllfaoedd anodd lle ceir sawl ffactor sy'n rhyngweithio. Mae'n cynnwys cymryd cyfrifoldeb dros gynllunio a datblygu camau gweithredu sy'n cychwyn neu sy'n sail i newidiadau neu ddatblygiadau sylweddol, yn ogystal ag arfer annibyniaeth a barn eang. Mae hefyd yn adlewyrchu dealltwriaeth o adlewyrchu dealltwriaeth o safbwyntiau damcaniaethol a methodolegol perthnasol a sut maent yn effeithio ar eu maes astudio neu eu maes gwaith.</p>	<p>Ailffurfio a defnyddio dealltwriaeth ymarferol, gysyniadol neu dechnolegol i greu ffyrdd ymlaen o fewn cyd-destunau lle ceir sawl ffactor sy'n rhyngweithio.</p> <p>Cynnal dadansoddiad beirniadol, dehongli a gwerthuso gwybodaeth, cysyniadau a damcaniaethau cymhleth i gynhyrchu cysyniadau wedi'u haddasu.</p> <p>Deall cyd-destunau ehangach y maes astudio neu'r maes gwaith.</p> <p>Deall datblygiadau cyfredol yn y maes astudio neu'r maes gwaith.</p> <p>Deall gwahanol safbwyntiau damcaniaethol a methodolegol a sut maent yn effeithio ar y maes astudio neu'r maes gwaith.</p>	<p>Cysyniadu ac ymdrin â sefyllfaoedd anodd lle ceir sawl ffactor sy'n rhyngweithio.</p> <p>Pennu a defnyddio methodolegau a dulliau gweithredu priodol.</p> <p>Dylunio a chynnal gweithgareddau ymchwil, datblygu neu strategol i lywio'r maes gwaith neu'r maes astudio neu i gynhyrchu newid sefydliadol neu broffesiynol.</p> <p>Cynnal gwerthusiad beirniadol o gamau gweithredu, dulliau a chanlyniadau a'u goblygiadau byrdymor a hirdymor.</p>	<p>Cymryd cyfrifoldeb dros gynllunio a datblygu camau gweithredu sy'n cychwyn neu sy'n sail i newidiadau neu ddatblygiadau sylweddol.</p> <p>Arfer annibyniaeth a barn eang ar draws maes gwaith neu faes astudio sylweddol.</p> <p>Cychwyn ac arwain tasgau a phrosesau cymhleth, gan gymryd cyfrifoldeb, lle y bo'n berthnasol, dros waith a rolau eraill.</p>

## Disgrifyddion Lefel

Lefel	Crynodeb	Gwybodaeth a dealltwriaeth	Cymhwyso a gweithredu	Annibyniaeth ac atelbolrwydd
<b>Lefel 8</b>	<p>Mae cyflawni Lefel 8 yn adlewyrchu'r gallu i ddatblygu dealltwriaeth wreiddiol ac i ehangu maes o wybodaeth neu arfer proffesiynol. Mae'n adlewyrchu'r gallu i ymdrin â sefyllfaoedd anodd lle ceir sawl ffactor cymhleth sy'n rhyngweithio drwy gychwyn, dylunio a chynnal gweithgareddau ymchwil, datblygu neu strategol. Mae'n cynnwys arfer annibyniaeth, barn ac arweinyddiaeth eang wrth rannu cyfrifoldeb dros ddatblygu maes gwaith neu wybodaeth neu dros greu newid proffesiynol neu sefydliadol sylweddol. Mae hefyd yn adlewyrchu dealltwriaeth feirniadol o safbwyntiau damcaniaethol a methodolegol perthnasol a sut maent yn effeithio ar y maes gwybodaeth neu'r maes gwaith.</p>	<p>Datblygu dealltwriaeth ymarferol, gysyniadol neu dechnolegol wreiddiol i greu ffyrdd ymlaen o fewn cyd-destunau nad ydynt wedi'u diffinio a lle ceir sawl ffactor cymhleth sy'n rhyngweithio.</p> <p>Cynnal dadansoddiad beirniadol, dehongli a gwerthuso gwybodaeth, cysyniadau a damcaniaethau cymhleth er mwyn cynhyrchu gwybodaeth a damcaniaethau newydd.</p> <p>Deall ac ailgysyniadu cyd-destunau ehangach y maes gwybodaeth neu'r maes gwaith.</p> <p>Ehangu maes gwybodaeth neu faes gwaith drwy gyfrannu gwybodaeth a ffordd o feddwl wreiddiol.</p> <p>Arfer dealltwriaeth feirniadol o wahanol safbwyntiau damcaniaethol a methodolegol a sut maent yn effeithio ar y maes gwybodaeth neu'r maes gwaith.</p>	<p>Cysyniadu ac ymdrin â sefyllfaoedd anodd lle ceir sawl ffactor cymhleth sy'n rhyngweithio.</p> <p>Ffurio a defnyddio methodolegau a dulliau gweithredu priodol.</p> <p>Cychwyn, dylunio a chynnal gweithgareddau ymchwil, datblygu neu strategol sy'n ehangu'r maes gwaith neu wybodaeth neu sy'n arwain at newid sefydliadol neu broffesiynol sylweddol.</p> <p>Cynnal gwerthusiad beirniadol o gamau gweithredu, dulliau a chanlyniadau a'u goblygiadau byrdymor a hirdymor i'r maes gwaith neu'r maes gwybodaeth a'i gyd-destun ehangach.</p>	<p>Cymryd cyfrifoldeb dros gynllunio a datblygu camau gweithredu sy'n cael effaith sylweddol ar y maes gwaith neu wybodaeth neu sy'n arwain at newid sefydliadol neu broffesiynol sylweddol.</p> <p>Arfer annibyniaeth, barn ac arweinyddiaeth eang fel ymarferydd neu ysgolhaig blaenllaw gan rannu cyfrifoldeb dros ddatblygu maes gwaith neu wybodaeth, neu dros newid sefydliadol neu broffesiynol sylweddol.</p> <p>Cymryd cyfrifoldeb dros ddatblygu arfer proffesiynol.</p>



# Atodiad 2

## Adeiladu Teuluoedd Cryfach drwy Hybu Newid Ymddygiadol

Côd Uned:	<b>PR42CY087</b>	ID Uned:	<b>CCY687</b>
Lefel:	<b>Dau</b>	learnirect:	<b>PR4</b>
Credydau:	<b>1</b>	Sector:	<b>1.3</b>

Mae'r uned hon yn aelod o un neu fwy o **grwpiau** o unedau cysylltiedig.

Canlyniadau Dysgu	Meini Prawf Asesu
<b>Bydd y myfyriwr yn</b>	<b>Mae'r myfyriwr yn gallu</b>
1. Deall sut i hybu newid ymddygiad mewn teuluoedd.	1.1 Disgrifio sut i hybu newid ymddygiad mewn teuluoedd gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"><li>• Defnyddio dull teulu cyfan</li><li>• Y broses o newid</li><li>• Edrych ar ddeuoliaeth teimlad</li></ul>
	1.2 Disgrifio amrywiaeth o becynnau cymorth y gellid eu defnyddio i ymgysylltu â theuluoedd, a'u swyddogaeth yn y camau o newid gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"><li>• Y cwestiwn gwyrthiol</li><li>• Cardiau gwerthoedd</li><li>• Cardiau cryfderau</li><li>• Mesuryddion pwysigrwydd a hyder</li><li>• Cynlluniau gweithredu</li><li>• Cynlluniau cynnal</li></ul>

### Dulliau Asesu

- Astudiaeth achos
- Cwestiwn ac ateb llafar
- Ymarferiad ysgrifenedig
- Log myfyriol/dyddiadur
- Ffeil ymarfer

Canllawiau pellach ar asesu ar gael ar wefan Agored, [www.agored.org.uk](http://www.agored.org.uk)

### ADCDF

Gellir integreiddio'r themâu allweddol canlynol i'r uned hon:

### Dewisiadau a Phenderfyniadau

### Mapiadau Eraill

NOS – HSC21  
NHS KSF – Craidd 1 Lefel 2, HWB2 Lefel 1  
SCCR 4

### Gofynion ar gyfer Aseswyr

Nid oes unrhyw wybodaeth ynghylch gofynion penodol ar gyfer aseswyr i'r uned hon. Dylai canolfannau ddewis aseswyr sydd wedi cael eu hyfforddi mewn asesu, ac sydd â chymhwysedd sy'n benodol i'r pwnc i asesu ar y lefel hon.

## Gweithredu Gwasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd

Côd Uned: **PR43CY003**

ID Uned: **CCX355**

Lefel : **Tri**

learnirect: **PR42**

Credydau: **5**

Sector: **1.3**

Mae'r uned hon yn aelod o un neu fwy o **grwpiau** o unedau cysylltiedig.

Canlyniadau Dysgu	Meini Prawf Asesu
<b>Bydd y myfyriwr yn</b>	<b>Mae'r myfyriwr yn gallu</b>
1. Deall athroniaeth cymorth integredig i deuluoedd.	<p>1.1 Esbonio athroniaeth cymorth integredig i deuluoedd a'i effaith ar ddeilliannau, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sut mae pobl yn newid</li> <li>• cysyniadau deuloliaeth teimlad, gwrthwynebiad a chymhelliad mewnol</li> <li>• y cysyniad o risg a gwydnwch mewn teuluoedd</li> <li>• empathi, a'i rôl mewn cynghreiriau gweithio effeithiol</li> <li>• y pwyslais cyfannol ar deuluoedd</li> </ul>
2. Gallu adnabod a defnyddio'r sgiliau cyfathrebu sydd eu hangen mewn cymorth integredig i deuluoedd.	<p>2.1 Esbonio'r sgiliau cyfathrebu sydd eu hangen mewn cymorth integredig i deuluoedd, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sgiliau gwranddo</li> <li>• cwestiynau agored</li> <li>• crynhoi</li> <li>• cadarnhau</li> <li>• myfyrio ar gynnwys, ystyr a theimlad</li> <li>• myfyrio cymhleth</li> <li>• edrych ar ddeuloliaeth teimlad ac anghyseinedd</li> <li>• datblygu empathi</li> <li>• mynd gyda'r llif</li> <li>• ymgysylltu â'r teulu cyfan</li> </ul> <p>2.2 Dangos y sgiliau cyfathrebu sydd eu hangen mewn cymorth integredig i deuluoedd, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sgiliau gwranddo</li> <li>• cwestiynau agored</li> <li>• crynhoi</li> <li>• cadarnhau</li> <li>• myfyrio ar gynnwys, ystyr a theimlad</li> <li>• myfyrio cymhleth</li> <li>• edrych ar ddeuloliaeth teimlad ac anghyseinedd</li> <li>• datblygu empathi</li> <li>• mynd gyda'r llif</li> <li>• ymgysylltu â'r teulu cyfan</li> </ul>

Canlyniadau Dysgu	Meini Prawf Asesu
<b>Bydd y myfyriwr yn</b>	<b>Mae'r myfyriwr yn gallu</b>
3. Deall a defnyddio strategaethau ar gyfer gweithio mewn cymorth integredig i deuluoedd.	<p>3.1 Esbonio'r strategaethau a ddefnyddir mewn cymorth integredig i deuluoedd gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• derbyn atgyfeiriadau</li> <li>• pennu cynlluniau diogelwch</li> <li>• rheoli sefyllfaoedd risg uchel</li> <li>• pennu dyheadau a chymhellion ar gyfer teuluoedd</li> <li>• pennu cryfderau teuluoedd</li> <li>• ennyn trafodaethau ar newid</li> <li>• negodi amcanion</li> <li>• pennu cynlluniau gweithredu a chynnal</li> <li>• atal atgwmpau</li> <li>• adolygu llithriadau</li> <li>• dilyn adolygiadau a sesiynau atgyfnerthu</li> </ul> <p>3.2 Dangos amrywiaeth o strategaethau cymorth i deuluoedd gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• adeiladu ar gryfderau'r teulu</li> <li>• cefnogi'r broses newid ymddygiad</li> <li>• cynorthwyo i atal llithro'n ôl</li> <li>• rhoi cymorth i gynnal amcanion y teulu</li> </ul>
4. Deall prosesau cymorth integredig i deuluoedd.	4.1 Esbonio'r prosesau cymorth integredig i'r teulu, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• y broses atgyfeirio</li> <li>• y berthynas ag atgyfeirwyr</li> <li>• y meini prawf atgyfeirio</li> <li>• budd cysylltiadau rhwng y proffesiynau</li> <li>• pa bryd i atgyfeirio i wasanaethau arbenigwyr</li> <li>• gohebiaeth ac adroddiadau</li> </ul>
5. Deall arferion gweithio diogel wrth ddarparu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y teulu.	<p>5.1 Esbonio terfynau cyfrifoldebau personol a pha bryd i gysylltu â goruchwylydd am gymorth.</p> <p>5.2 Amlinellu'r ddeddfwriaeth a'r polisiau cyfredol ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• amddiffyn pobl agored i niwed, gan gynnwys plant</li> <li>• diogelu data a chyfrinachedd cleientiaid</li> </ul>

Canlyniadau Dysgu	Meini Prawf Asesu
<b>Bydd y myfyriwr yn</b>	<b>Mae'r myfyriwr yn gallu</b>
6. Gallu darparu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y teulu.	<p>6.1 Dangos sut mae darparu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y teulu, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Paratoi ar gyfer y cyfarfod cyntaf</li> <li>• Ymgysylltu â'r teulu</li> <li>• Cyflwyno'r gwasanaeth</li> </ul> <p>6.2 Dangos amrywiaeth o strategaethau cymorth i deuluoedd, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cymorth i newid ymddygiad sy'n canolbwyntio ar nodau</li> <li>• darparu elfennau o gynllun wythnosol</li> <li>• darparu elfennau o gynllun teulu</li> </ul>
7. Adnabod arferion gweithio personol mewn ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y teulu.	7.1 Gwerthuso'ch arferion gwaith eich hun mewn ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y teulu.

### Dulliau Asesu

- Astudiaeth achos
- Adroddiad
- Cwestiwn ac ateb llafar
- Ymarferiad ysgrifenedig
- Chwarae Rôl/simiwleiddio
- Arddangosiad ymarferol
- Ffeil ymarfer

Canllawiau pellach ar asesu ar gael ar wefan Agored, [www.agored.org.uk](http://www.agored.org.uk)

### Mapiadau Eraill

NOS – AA1, AI1, AI2, CFA101, CFA301, CFA4011, HSC21, GEN22, MH8

KSF – HWB2 lefel 1 a lefel 3, HWB4 lefel 3, Craidd 1 lefel 2 a level 3

SCCP – 1, 2, 3, 4, 5, 6

### Gofynion ar gyfer Aseswyr

Nid oes unrhyw wybodaeth ynghylch gofynion penodol ar gyfer aseswyr i'r uned hon. Dylai canolfannau ddewis aseswyr sydd wedi cael eu hyfforddi mewn asesu, ac sydd â chymhwysedd sy'n benodol i'r pwnc i asesu ar y lefel hon.

## Rheoli sut y mae Ymyriadau sy'n Canolbwyntio ar y Teulu'n cael eu Darparu

Côd Uned: **PR46CY001**

ID Uned: **CCX354**

Lefel : **Chwech**

learndirect: **PR42**

Credydau: **6**

Sector: **1.3**

Mae'r uned hon yn aelod o un neu fwy o **grwpiau** o unedau cysylltiedig.

Canlyniadau Dysgu	Meini Prawf Asesu
<b>Bydd y myfyriwr yn</b>	<b>Mae'r myfyriwr yn gallu</b>
1. Rheoli atgyfeiriad at y gwasanaeth cymorth integredig i deuluoedd.	<p>1.1 Derbyn atgyfeiriad ar gyfer ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y teulu dros y ffôn neu'n bersonol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysylltu â'r atgyfeiriwr</li> <li>• Paratoi a chynnal cyfweliad â'r client</li> <li>• Dehongli gwybodaeth</li> <li>• Cwblhau'r ddogfennaeth</li> <li>• Paratoi gwybodaeth ystadegol</li> </ul> <p>1.2 Esbonio sut mae ymdrin ag atgyfeiriadau amhriodol i'r gwasanaeth.</p>
2. Gweithredu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y teulu.	<p>2.1 Rheoli a gweithredu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y teulu, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Asesu'r argyfwng</li> <li>• Gwerthuso'r wybodaeth a gasglwyd</li> <li>• Creu cytundeb gweithio a chynllun diogelwch â'r teulu</li> <li>• Cwblhau adroddiad 72 awr i'w roi i'r atgyfeiriwr</li> </ul> <p>2.2 Dangos sut mae gweithredu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y teulu, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cardiau gwerthoedd</li> <li>• Cardiau cryfderau</li> <li>• Cwestiynau gwyrth</li> <li>• Pennu nodau</li> <li>• Pennu nodau penodol i ymddygiadau</li> <li>• Cynlluniau wythnosol</li> <li>• Gorffen yr ymyriad</li> <li>• Cardiau argyfwng</li> </ul>

Canlyniadau Dysgu	Meini Prawf Asesu
<b>Bydd y myfyriwr yn</b>	<b>Mae'r myfyriwr yn gallu</b>
3. Rheoli ymyriad wedi'i strwythuro sy'n canolbwyntio ar deuluoedd sydd	3.1 Defnyddio crebwyll proffesiynol i gyfeirio ymyriad wedi'i strwythuro sy'n canolbwyntio ar deuluoedd o'r atgyfeiriad er mwyn ei gynnal, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgynghori a negodi â'r atgyfeiriwr</li> <li>• Cynnal perthynas â'r atgyfeirwyr</li> <li>• Gweithio mewn partneriaeth ag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau</li> <li>• Deall safbwyntiau gwahanol yn yr ymyriad</li> <li>• Strategaethau ar gyfer dirprwyo'n fewnol ac atgyfeirio ymlaen</li> <li>• Rheoli cynllun gofal</li> <li>• Gwerthuso ymyriadau</li> <li>• Egluro deilliannau achosion</li> <li>• Cydweithio ag aelodau'r tîm i ddadansoddi a damcaniaethu achosion</li> <li>• Penderfynu ar gamau nesaf priodol</li> <li>• Cychwyn ar y camau gweithredu nesaf</li> <li>• Cefnogi dysgu ac arferion gwaith cydweithwyr</li> <li>• Dadansoddi'r cydbwysedd rhwng risg a gwydnwch</li> <li>• Dangos crebwyll o ran annibyniaeth broffesiynol ac atebolrwydd sefydliadol</li> <li>• Ysgrifennu adroddiadau ar gyfer rhanddeiliaid a theuluoedd</li> </ul>
4. Deall arferion gweithio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar deuluoedd.	4.1 Bod yn gyfrifol am gynllunio, datblygu a dadansoddi arferion gweithio mewn ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y teulu, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Arferion gweithio personol</li> <li>• Arferion gweithio cydweithwyr</li> <li>• Effaith systemau a phrosesau ar arferion gweithio presennol ac yn y dyfodol.</li> </ul>

### Dulliau Asesu

- Astudiaeth achos
- Adroddiad
- Cwestiwn ac ateb llafar
- Ymarferiad ysgrifenedig
- Chwarae Rôl/simiwleiddio
- Arddangosiad ymarferol
- Ffeil ymarfer

Canllawiau pellach ar asesu ar gael ar wefan Agored, [www.agored.org.uk](http://www.agored.org.uk)

### Mapiadau Eraill

NOS – AA1, AI1, CFA301, CFA401, HSC21, HSC41, GEN22, MH8

KSF – HWB2 lefel 1, HWB4 lefel 3, Craidd 1 lefel 2, level 3 a lefel 4

SCCP – 1, 2, 3, 4, 5, 6

### Gofynion ar gyfer Aseswyr

Nid oes unrhyw wybodaeth ynghylch gofynion penodol ar gyfer aseswyr i'r uned hon. Dylai canolfannau ddewis aseswyr sydd wedi cael eu hyfforddi mewn asesu, ac sydd â chymhwysedd sy'n benodol i'r pwnc i asesu ar y lefel hon.

# Atodiad 3



**Cyngor Gofal Cymru**  
Care Council for Wales

*Hyder mewn Gofal - Confidence in Care*

## **Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) – Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd (DGOSA) ym maes Gofal Cymdeithasol, Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant**

### **Achos Busnes**

Ffurflen gais achos busnes ar gyfer datblygu uned(au) ar gyfer colofn DGOSA FfCChC i'w defnyddio ym maes gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant.

**Dylech hefyd anfon unrhyw wybodaeth ategol a all fod gennych am y rhaglen ddysgu / hyfforddi.**

Dychwelwch y ffurflen hon wedi'i chwblhau at **[dyfan.jones@cgymru.org.uk](mailto:dyfan.jones@cgymru.org.uk)**.

Cyflogwr / Darparwr Dysgu neu Sefydliad Dyfarnu:	Enw Cyswllt:
Cyfeiriad E-bost Cyswllt:	Rhif Cyswllt:
Teitl Arfaethedig yr Uned(au):	
Prif Ddiben yr Uned(au):	
Rhesymau dros ddatblygu (rhowch gefndir i'r cynnig, tystiolaeth o'r angen am yr uned(au) a'r manteision i'r sefydliad, staff, unigolion a'r gwasanaeth yn gyffredinol, a chysylltiadau ag agendau'r llywodraeth a blaenoriaethau'r sector):	
Y Farchnad Darged (meysydd galwedigaethol/rolau swyddi a gwmpesir):	

I ba ystod oedran y cynigir y dysgu?	
Ble y caiff y dysgu ei gynnig? e.e. Yn fewnol, dim ond yn ardal yr Awdurdod Lleol, yn rhanbarthol, ledled Cymru gyfan:	
I ba safonau y mae'r unedau hyn yn berthnasol? e.e. Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, Setiau Gwybodaeth:	
A yw'r unedau'n seiliedig ar wybodaeth neu gymwyseddau?	
A fydd unrhyw ofynion penodol o ran asesu? e.e. gwybodaeth neu gymwysterau galwedigaethol y rhai sy'n asesu:	
Oriau dysgu amcangyfrifedig:	Lefel amcangyfrifedig y dysgu:
Unrhyw gysylltiadau â dysgu neu lwybrau presennol:	Nifer arfaethedig y myfyrwyr a fydd yn cofrestru (niferoedd amcangyfrifedig):

## At ddefnydd mewnol yn unig

Dyddiad derbyn:	Dyddiad anfon cydnabyddiaeth:
Gwiriwyd cronfa ddata DGOSA am achosion o <input type="checkbox"/> ddyblygu	Gwiriwyd cronfa ddata FfCChC am achosion o <input type="checkbox"/> ddyblygu
Dyddiad cyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor Ansawdd a Safonau:	
Ymateb <input type="checkbox"/> Ia <input type="checkbox"/> Na	Argymhellion:
Dyddiad anfon yr ymateb at y sawl a gyflwynodd y cais:	
Unrhyw gamau pellach sydd angen eu cymryd:	